COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE




Awst/2024

# Ein Cymuned Gymraeg

colegsirbenfro.ac.uk




# CROESO

Croeso i Goleg Sir Benfro! Rydym wrth ein bodd eich bod wedi dewis astudio gyda ni. Y llyfryn hwn yw eich porth i archwilio ein Cymuned Gymraeg fywiog a'r holl gyfleoedd Cymraeg a dwyieithog cyffrous sy'n eich disgwyl ym mis Medi.

Mae ein Tîm Iaith Gymraeg ymroddedig yma i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd. P'un a oes gennych gwestiynau, angen arweiniad, neu ddim ond eisiau cysylltu, mae croeso i chi anfon e-bost atom: cymraeg@colegsirbenfro.ac.uk neu dewch i'n gweld yn bersonol.




Ni allwn aros i'ch croesawu i'n cymuned a'ch cefnogi i ddatblygu a defnyddio eich sgiliau Cymraeg, waeth beth fo'ch lefel bresennol, yng Ngholeg Sir Benfro!



**Cynnal sgiliau iaith:**
Adeiladu ar sgiliau sydd eisoes wedi'u meithrin yn yr ysgol, gan sicrhau dilyniant a pharhad i astudiaeth bellach neu i fyd gwaith.

**Cyfleoedd gyrfa:**
Mae llawer o gyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg, gan gynnig mwy o gyfleoedd gwaith yng Nghymru a thu hwnt.

**Mantais ddwyieithog:**
Gall bod yn ddwyieithog wella galluoedd gwybyddol, gwella dealltwriaeth o'r pwnc wrth i chi ddysgu, gwella aml-dasgau, a hybu sgiliau datrys problemau.


**Hunaniaeth ddiwylliannol:**
Mae cofleidio'r Gymraeg yn helpu i gynnal cysylltiad cryf â'ch treftadaeth ddiwylliannol a'ch hunaniaeth.

**Ymgysylltu cymunedol:**
Mae defnyddio'r Gymraeg yn caniatáu i chi gyfranogi'n llawnach mewn digwyddiadau, traddodiadau a chymunedau lleol.




# Cymraeg...
# **Pam?**

Dyma sawl rheswm sy'n dangos manteision ymgysylltu â chyfleoedd iaith a diwylliant Cymru yn y Coleg:



**Cadwraeth ddiwylliannol:**
Mae siarad Cymraeg yn helpu i warchod yr iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan ei chadw'n fyw ac yn llawn bwrlwm.



**Rhwydweithio:**
Gall y gallu i siarad Cymraeg ehangu eich rhwydwaith cymdeithasol, gan eich helpu i gysylltu ag ystod ehangach o bobl.



**Iechyd meddwl:**
Gall ymgysylltu â'ch iaith ddiwylliannol feithrin ymdeimlad o berthyn a gwella lles meddwl cyffredinol.



**Creadigrwydd:**
Mae bod yn ddwyieithog yn gwella creadigrwydd a meddwl y tu allan i'r bocs.



**Persbectif byd-eang:**
Gall bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ei gwneud hi'n haws dysgu ieithoedd ychwanegol a deall diwylliannau gwahanol.



### Gwaith cwrs:
Cwblhewch eich holl waith cwrs neu ran ohono yn Gymraeg.

### Gweithgareddau dosbarth:
Ymgymrwch â thasgau, gwaith grŵp, cyflwyniadau, a gwaith prosiect gan ddefnyddio'r Gymraeg.

### Asesiadau:
Defnyddiwch y Gymraeg mewn asesiadau llafar ac ymarferol.

### Lleoliadau gwaith:
Defnyddiwch eich sgiliau iaith Gymraeg yn ystod lleoliadau gwaith.

### Tiwtorialau:
Manteisiwch ar y cyfle i gael tiwtorialau yn Gymraeg a chwblhau elfennau o'r rhaglen diwtorial yn Gymraeg.

### Llythrennedd WEST:
Uwchsgiliwch eich Cymraeg trwy Llythrennedd WEST.




# DARGANFYDDWCH Y GWAHANOL FFYRDD O DDEFNYDDIO EICH SGILIAU CYMRAEG YN Y COLEG!

Rydym yn mynd ati i annog pob dysgwr sy'n siarad Cymraeg i gynnal a gwella eu sgiliau Cymraeg drwy gydol eu hastudiaethau. Dyma sawl ffordd y gallwch chi ddefnyddio eich Cymraeg:

## Sesiynau Cymraeg wythnosol:

Mae llawer o gyrsiau'n cynnig sesiynau Cymraeg wythnosol sy'n canolbwyntio ar sgiliau iaith yn y gweithle, a gyflwynir gan ein Tiwtoriaid Cefnogi Dwyieithrwydd. Mae'r sesiynau hyn yn darparu ar gyfer dysgwyr o bob lefel hyfedredd, gan ddarparu amgylchedd cefnogol i gryfhau eich gallu yn y Gymraeg.

## Cefnogaeth ychwanegol:

Derbyn cefnogaeth bersonol yn y Gymraeg gan y Tiwtoriaid Cefnogi Dwyieithrwydd. Maent yn cynnig arweiniad ar Gymraeg ysgrifenedig a llafar, ac yn darparu mynediad i ddeunyddiau dysgu Cymraeg a dwyieithog. Yn ogystal, gallant eich cyflwyno i adnoddau digidol, offer, ac apiau sydd wedi'u cynllunio i wella eich hyfedredd wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar hyd eich taith ddysgu.

Cofleidiwch y cyfle i gryfhau eich gallu yn y Gymraeg yng Ngholeg Sir Benfro a pharatowch ar gyfer dyfodol sydd wedi'i gyfoethogi â hyfedredd dwyieithog!


COLEG
YMRAEG




## Gwobr Iaith Gymraeg y Coleg

Bob blwyddyn, rydym yn cydnabod dysgwr sydd wedi dangos ymroddiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith cwrs neu feysydd eraill o'u dysgu. Drwy ymgysylltu'n frwd â'r Gymraeg, boed hynny drwy gwblhau gwaith cwrs neu gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu eraill, gallech fod yn gymwys i ennill Gwobr y Gymraeg. Bydd yr enillydd yn derbyn gwobr o £150, ynghyd â chydnabyddiaeth am eu hymrwymiad i ddwyieithrwydd a diwylliant Cymru. Beth am fachu ar y cyfle hwn i arddangos eich sgiliau Cymraeg ac ymdrechu am y wobr? Cofleidiwch yr her, dangoswch eich hyfedredd, ac o bosib ennill y wobr!

## Llysgennad y Gymraeg

Dewch yn Llysgennad y Gymraeg a datgloi byd o gyfleoedd cyffrous yng Ngh！oleg Sir Benfro! Fel Llysgennad, byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth godi proffil y Gymraeg a diwylliant Cymru yn ein cymuned. Nid yw'r swydd gyflogedig hon yn ymwneud ag ennill arian yn unig; mae'n gyfle i feithrin sgiliau newydd, ennill profiad amhrisiadwy, a chysylltu â chyfoedion ar draws y coleg. P'un a ydych chi'n frwd dros hyrwyddo dwyieithrwydd, gwella'ch galluoedd arwain, neu ehangu'ch rhwydwaith, mae'r rôl hon yn cynnig y cyfan.

Mae ceisiadau yn agor ym mis Medi. Peidiwch â cholli'r cyfle unigryw hwn i gael effaith barhaol wrth gychwyn ar daith werth chweil gyda ni fel Llysgennad y Gymraeg!

**Lluniau:** Llysgenhadon y Gymraeg Amy-Lee a Bedri




# CYMERWCH RAN GYDA'R URDD...



Yng Ngholeg Sir Benfro, rydym yn annog ein dysgwyr yn gryf i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd, yn enwedig cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd. Nid yw'r digwyddiadau hyn yn ymwneud â chystadleuaeth yn unig; maent yn ymwneud â dathlu diwylliant, creadigrwydd a thalent Cymru.

Blwyddyn o gyflawniadau: Rydym yn hynod o falch o rannu bod eleni wedi bod yn un lwyddiannus iawn i'n dysgwyr dawnus, gan ennill 19 medal aur, arian ac efydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. O gerddoriaeth i gelf, dylunio a thechnoleg, mae eu cyflawniadau yn adlewyrchu'r ymroddiad a'r rhagoriaeth rydym yn eu meithrin yma yng Ngholeg Sir Benfro.

## Pam cymryd rhan?

**Arddangos eich talent:** Mae Eisteddfod yr Urdd yn llwyfan perffaith i ddangos eich sgiliau a'ch creadigrwydd. P'un a ydych chi'n rhagori yn y celfyddydau perfformio, llenyddiaeth, neu'r celfyddydau gweledol, mae yna gategori i chi.


**Sbardun i lwyddiant:** Gall cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd fod yn garreg gamu arwyddocaol ar gyfer eich ymdrechion yn y dyfodol. Mae'n gyfle i ennill cydnabyddiaeth, adeiladu eich hyder, ac agor drysau i gyfleoedd pellach yn eich dewis faes.

**Ymgysylltu diwylliannol:** Mae bod yn rhan o weithgareddau'r Urdd yn eich helpu i gysylltu'n ddyfnach â diwylliant a threftadaeth Cymru, gan gyfoethogi eich profiad addysgol a'ch twf personol.

**Cymuned a chyfeillgarwch:** Mae ymuno â digwyddiadau'r Urdd yn golygu dod yn rhan o gymuned fywiog o bobl ifanc sy'n rhannu eich diddordebau a'ch angerdd. Mae'n gyfle i wneud ffrindiau newydd a chreu atgofion parhaol.

**Ymunwch â ni a gwnewch eich marc!** Rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd a bod yn rhan o'r daith anhygoel hon. Pwy a wyr? Y flwyddyn nesaf, fe allech chi sefyll ar y podiwm, dathlu eich cyflawniadau a gwneud eich coleg yn falch.

# CYMERWCH RAN MEWN **DIGWYDDIADAU** ‘DATHLU CYMRU’...





Rydym yn frwd dros ddathlu iaith a diwylliant cyfoethog Cymru. Bob blwyddyn, rydyn ni’n trefnu cyfres o ddigwyddiadau sy’n gwahodd ein holl ddysgwyr i gymryd rhan, dysgu a chael hwyl. Dyma rai o’r digwyddiadau allweddol na fyddwch am eu colli:



**Diwrnod Shwmae – 15 Hydref:** Dechreuwch y dathliadau gyda Diwrnod Shwmae, lle mae pawb yn cael eu hannog i gyfarch ei gilydd gyda "Shwmae!" a chofleidio'r iaith Gymraeg. Bydd dysgwyr yn cael eu gwahodd i ymuno mewn gweithgareddau hwyliog.

**Diwrnod Hawliau'r Gymraeg – 7 Rhagfyr:** Dathlwch Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg gyda ni wrth i ni hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Coleg trwy amrywiol weithgareddau, gweithdai a chystadlaethau i amlygu pwysigrwydd dewis iaith wrth ddarparu gwasanaethau.

**Dydd Santes Dwynwen – 25 Ionawr:** Profwch yr hyn sy'n cyfateb i Ddydd San Ffolant yng Nghymru! Mae Dydd Santes Dwynwen yn ymwneud â chariad a chyfeillgarwch. Mwynhewch ddigwyddiadau â thema, sesiynau adrodd straeon, a gweithgareddau crefft sy'n dathlu ysbryd rhamant a thraddodiad Cymreig.

**Dydd Miwsig Cymru – 9 Chwefror:** Darganfyddwch fyd bywiog cerddoriaeth Gymraeg trwy weithgareddau fel creu rhestrau chwarae, sesiynau gwrando, cystadlaethau a pherfformiadau byw! Mae'n gyfle gwych i werthfawrogi synau amrywiol Cymru.

**Dydd Gŵyl Dewi – 1 Mawrth:** Ymunwch â ni ar gyfer dathliad mawreddog, sef Dydd Gŵyl Dewi, i anrhydeddu nawddsant Cymru. Mae'r diwrnod yn llawn gweithgaredd diwylliannol, ffair grefftau a chyfle i chi wisgo yn eich gwisg Gymreig orau!

**Wythnos Eisteddfod y Coleg – Mawrth:** Ymgollwch yn nhraddodiad cyfoethog yr Eisteddfod yn ystod Wythnos Eisteddfod y Coleg. Cymerwch ran mewn cystadlaethau amrywiol, gan gynnwys cerddoriaeth, dawns, barddoniaeth, a chelf ac arddangos eich doniau.

**Diwrnod Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd – 18 Mai:** Dathlwch Ddiwrnod Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd gyda gweithgareddau sy'n hybu heddwch, cyfeillgarwch, ac ewyllys da. Ymunwch â ni i ledaenu negeseuon cadarnhaol a chymryd rhan mewn prosiectau cymunedol.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig cyfle gwych i ymgolli yng ngweithgarwch Cymraeg a Chymreig a dysgu pethau newydd, gan gyfoethogi eich profiad diwylliannol yn y Coleg.

# Cwrdd â **THÎM** yr Iaith Gymraeg

Darganfyddwch sut y gall Tîm yr Iaith Gymraeg yng Ngholeg Sir Benfro wella eich taith ddysgu:

**Cefnogaeth wedi'i theilwra:** P'un a ydych yn bwriadu cwblhau gwaith cwrs yn Gymraeg neu ddatblygu sgiliau iaith sy'n barod ar gyfer y gweithle, mae ein tîm yma i'ch cynorthwyo bob cam o'r ffordd.

**Trochi yn iaith a diwylliant Cymru:** Archwiliwch gyfleoedd i ymgysylltu â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, gan gyfoethogi eich profiad diwylliannol cyffredinol.



**Eva Rees**
Pennaeth Cyfadran, Iechyd, Gofal a Mentrau Masnachol a'r Iaith Gymraeg



**Janice Morgan**
Swyddog Datblygu'r Gymraeg



**Lowri Moffett**
Swyddog Ymgysylltiad y Dysgwr a Chyfieithydd y Coleg



**Helen Thomas**
Tiwtor Cymraeg Gwaith



**Med Richards**
Tiwtor Dwyieithog mewn Iechyd

# YN EICH CEFNOGI I GOFLEIDIO CYFOETH IAITH A DIWYLLIANT CYMRU YNG NGHOLEG SIR BENFRO!





**Claire Charles**
Tiwtor Cefnogi Dwyieithrwydd mewn Gwasanaethau Cyhoeddus



**Cerys Charles**
Tiwtor Cefnogi Dwyieithrwydd mewn Chwaraeon a Gofal Anifeiliaid



**Geraint Williams**
Tiwtor Cefnogi Dwyieithrwydd yn y Diwydiannau Creadigol



**Rhian Lawrence**
Tiwtor Cefnogi Dwyieithrwydd mewn Gofal Plant ac Adeiladu



**Emily Walters**
Tiwtor Cefnogi Dwyieithrwydd mewn Busnes, Teithio a Thwristiaeth ac Adeiladu

colegsirbenfro.ac.uk

# CYSYLLTWCH Â NI.

Coleg Sir Benfro

Merlins Bridge, SA61 1SZ

info@colegsirbenfro.ac.uk

01437 753 000